Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cynfran
# Dolwen Road
# Llysfaen
# Bae Colwyn
# Conwy
# LL29 8SS

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cynfran

Mae Ysgol Gynradd Cynfran ym mhentref Llysfaen ar gyrion Bae Colwyn yn awdurdod lleol Conwy.

Mae 180 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, ac mae 26 disgybl arall yn mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser naill yn y bore neu'r prynhawn.

Mae tua 18% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 22% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd, sef 21%. Mae bron pob un o'r disgyblion yn wyn Prydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref, a Saesneg yw iaith yr aelwyd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2013 ac arolygwyd yr ysgol gan Estyn ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan Ysgol Gynradd Cynfran ethos gofalgar a chefnogol a ffocws cryf ar ddatblygu medrau disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg yn effeithiol. Defnyddiant offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus i gefnogi eu dysgu. Ceir systemau datblygedig ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol mewn grwpiau ymyrraeth. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn yr ysgol yn ymddwyn yn ddigon da. Mae hyn yn golygu bod gormod o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent mewn gwersi.

Mae ffocws cryf ar addysg bersonol a chymdeithasol. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion yn sensitif i ddysgu am degwch a pharch, ac am ffyrdd iach o fyw. Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau. Mae arweinwyr yr ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr, ysgolion eraill a'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, ni chaiff rolau a chyfrifoldebau arwain eu diffinio'n ddigon clir i sicrhau bod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn cael ei rheoli'n dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Diffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir fel bod arweinwyr yn deall a chyflawni eu rolau'n effeithiol

A2 Sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion

A3 Gwella ymddygiad disgyblion a'u hymgysylltiad â'u dysgu

A4 Darparu cyfleoedd rheolaidd ac ystyrlon i ddisgyblion ymarfer ac ymgorffori eu medrau yn annibynnol dan do a'r tu allan yn yr awyr agored yn y cyfnod sylfaen

A5 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a lles a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a Chymraeg o fan cychwyn sy’n debyg i, neu’n is, na’r cyfartaledd ar gyfer eu hoedran a’u cyfnod datblygu. Fodd bynnag, o bryd i’w gilydd, mae cynnydd disgyblion mewn gwersi yn gyfyngedig. Y rheswm am hyn yw eu bod yn colli diddordeb yn y dasg, am fod y wers yn symud yn rhy araf neu am nad yw’r gweithgareddau’n gweddu i anghenion dysgu disgyblion yn ddigon da. Er bod disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da ar y cyfan, mae cyfradd eu cynnydd yn anghyson am nad ydynt bob amser yn cael eu herio’n ddigonol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sy’n cael cymorth ychwanegol ar gyfer medrau sylfaenol yn gwneud cynnydd priodol o leiaf o’u mannau cychwyn o ran datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu a mathemategol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Er enghraifft, yn y meithrin a’r derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau dilyn cyfarwyddiadau yn llwyddiannus, yn ateb cwestiynau yn ystod amser grŵp yn hyderus ac yn mwynhau ymuno wrth ganu caneuon syml. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymarfer a datblygu eu lleferydd yn ddigon da yn annibynnol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu â hyder cynyddol. Maent yn ail-ddweud stori ‘Y Crocodeil Anferthol’ (‘Enormous Crocodile’) yn frwdfrydig, yn siarad yn glir ac yn defnyddio geiriau trefn yn gywir, fel ‘yn gyntaf’ ac ‘wedyn’. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu ar y medrau hyn yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2 ac yn cyfathrebu’n effeithiol at amrywiaeth o ddibenion, er enghraifft pan fyddant yn rhoi eu barn am waith y cyngor ysgol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion bob amser yn gwrando’n ddigon gofalus mewn gwersi.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddarllenwyr hyderus ac yn defnyddio eu medrau ffonig yn dda. Yn y meithrin a’r derbyn, mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau storïau ac mae llawer ohonynt yn dechrau adnabod llythrennau a geiriau syml. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn darllen gwaith y maent wedi’i ysgrifennu eu hunain yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn rhoi eu barn am wahanol fathau o destunau, ac yn siarad am gymeriadau a phlot gyda diddordeb. Darllenant yn rhugl a gyda mynegiant da.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n effeithiol yn y cyfnod sylfaen. Maent yn ffurfio’r rhan fwyaf o lythrennau’n gywir ac yn cyflwyno gwaith yn dda. Gwnânt gynnydd cyson wrth ddefnyddio atalnodi sylfaenol, ac mae disgyblion mwy abl yn dechrau defnyddio dyfynodau ac ebychnodau. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n gymwys at amrywiaeth o ddibenion. Maent yn mwynhau ysgrifennu ac mae eu harddull yn ennyn diddordeb y darllenydd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ysgrifennu storïau dirgelwch. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pryd i ddefnyddio atalnodau llawn, comas a dyfynodau, ac maent yn sillafu’n dda. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn ysgrifennu’n ddigon destlus, ac weithiau maent yn gwneud camgymeriadau esgeulus yn eu gwaith. Er enghraifft, nid ydynt yn defnyddio priflythrennau’n gywir ac maent yn camsillafu geiriau a ddefnyddir yn aml. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn dda mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn y meithrin a'r derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd i'r afael â'u gwaith mathemateg yn frwdfrydig. Maent yn datblygu medrau rhif da ac yn mesur yn gywir mewn centimedrau. Maent yn dehongli gwybodaeth o graffiau bloc syml yn llwyddiannus, ac mae gan ddisgyblion mwy abl ddealltwriaeth gadarn o luosi syml. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau mathemategol yn dda. Maent yn defnyddio a chymhwyso'r rhain yn llwyddiannus, er enghraifft i ymchwilio i gost gwneud casgliadau o wahanol faint o fisgedi gan ddefnyddio amrywiaeth o gynhwysion. Maent yn darlunio a dehongli graffiau yn gywir. Er enghraifft, defnyddiant graffiau trosi'n llwyddiannus i ddangos milltiroedd fel cilomedrau. At ei gilydd, maent yn adeiladu ar eu medrau yn raddol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw dysgwyr mwy abl yn adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod yn ddigon da, ac ni all dysgwyr llai abl fynd i'r afael â'r tasgau a osodir ar eu cyfer yn ddigon annibynnol er mwyn iddynt wneud cynnydd effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio adnoddau TGCh yn hyderus ac yn fedrus. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio'r bysellfwrdd yn fedrus i ysgrifennu negeseuon e-bost. Maent yn dewis y cyfeiriad priodol ac yn cynnwys atodiadau llun yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn hyderus ac i lefel uchel. Er enghraifft, maent yn creu gemau syml ar gyfer ei gilydd ac yn deall sut i ddefnyddio taenlenni i gofnodi data, yn ogystal ag ysgrifennu blogiau'n rheolaidd yn Gymraeg a Saesneg. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i weithio'n ddiogel ar-lein.

Trwy gydol y diwrnod ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnwys geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn eu hiaith bob dydd, gan gynnwys cyfarchion a gofyn am fyrbrydau. Maent yn deall ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu yn Gymraeg yn rheolaidd at amrywiaeth o ddibenion ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cyflwyno gwybodaeth syml am Fotswana yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen eu gwaith yn ôl gyda dealltwriaeth, ynganiad a rhuglder addas.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd dewis bwyd a diodydd iach ac yn ymateb yn dda i anogaeth i fwyta ffrwythau amser byrbryd. Maent yn mwynhau'r awyr iach, yn gwneud y gorau o gyfleoedd i redeg o gwmpas amser egwyl ac maent yn frwdfrydig ynglŷn â gweithgareddau chwaraeon, fel eu gwersi nofio.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol ac o'i chwmpas. Maent yn cyfarch ymwelwyr yn gwrtais ac yn mwynhau rhyngweithio a gweithio gyda'u cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, yn rheoli eu hemosiynau'n briodol ac yn uniaethu'n gadarnhaol â'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn ymddwyn yn ddigon da tuag at staff a disgyblion eraill, ac nid ydynt yn dangos dealltwriaeth ddigon da o sut i ddangos parch a charedigrwydd at ei gilydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau syml yn yr ysgol gyda balchder a brwdfrydedd, er enghraifft yn eu rolau fel helpwr heddiw a monitoriaid ysgol. Maent yn datblygu eu hyder a'u gwydnwch yn briodol ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu synnwyr o berthyn i gymuned yr ysgol. Yng nghyfarfodydd y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau buddiol am faterion fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, mae'r grwpiau hyn yn tueddu i gael eu harwain gan oedolion. Ni chaiff yr holl aelodau eu hethol yn ddemocrataidd ac nid ydynt yn penderfynu pwy ddylai ymgymryd â'r rolau arwain nac yn cyfrannu at wneud unrhyw benderfyniadau ystyrlon.

Trwy waith y pwyllgor eco, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth werth chweil o gynaliadwyedd, ac yn mynd ati i annog disgyblion eraill i arbed dŵr a thrydan, a lleihau gwastraff bwyd amser cinio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o gydraddoldeb a thegwch trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol ddatblygedig yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu, ac maent yn ymgysylltu'n dda â syniadau a phrofiadau newydd. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn llawn cyffro wrth siarad am eu harbrawf gwyddoniaeth i greu glaw. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae pethau'n tynnu sylw gormod o ddisgyblion, maent yn colli diddordeb yn eu gwaith ac nid ydynt yn ymddwyn yn ddigon da mewn gwersi. Mae hyn yn aml oherwydd y cyfleoedd cyfyngedig iddynt arwain eu dysgu eu hunain yn y cyfnod sylfaen neu weithio ar gyflymdra addas ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif ohonynt yn canolbwyntio'n ddigon da ac maent yn ei chael yn anodd dyfalbarhau i gwblhau tasgau. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n bwrpasol fel dosbarth cyfan neu mewn grwpiau bach gyda chymorth gan oedolion. Fodd bynnag, mae eu medrau dysgu'n annibynnol yn llai datblygedig. Mae hyn yn golygu bod llawer o ddisgyblion yn tueddu i ddibynnu gormod ar oedolion i'w helpu â'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol mewn da bryd. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cyrraedd yn hwyr ac mae hyn yn arafu cyflymdra'r dysgu ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

At ei gilydd, mae'r addysgu'n ddigonol ac angen ei wella. Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn darparu modelau iaith da yn Gymraeg a Saesneg, sy'n helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio technegau holi'n dda i gael amcan o ddealltwriaeth disgyblion a'u helpu i ddatblygu eu medrau meddwl. Defnyddiant ystod werth chweil o strategaethau i gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn gynyddol effeithiol. Mae bron pob un o'r athrawon yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cynllunio'n ddigon gofalus i alluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn annibynnol ac yn greadigol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn arwain tasgau â ffocws yn bwrpasol i helpu disgyblion i ddysgu medrau a chysyniadau newydd. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddilyn eu diddordebau

eu hunain neu ymarfer ac atgyfnerthu eu dysgu trwy archwilio ac arbrofi'n rhwydd mewn amgylchedd dysgu cynlluniedig sy'n cynnwys adnoddau da. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn dechrau annog disgyblion i arbrofi â gwahanol strategaethau drostynt eu hunain pan fyddant yn cael anawsterau â'u gwaith, ond mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu hyn. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu gwydnwch a'u hannibyniaeth yn ddigon da. Mae trefniadaeth yr amserlen yn golygu bod rhai sesiynau'n rhy hir ac nid yw'r dysgu'n symud yn ddigon cyflym. Mae hyn yn golygu bod rhai disgyblion yn mynd yn aflonydd ac mae pethau'n tynnu eu sylw mewn gwersi.

Yn ystod gwersi, mae llawer o staff yn annog disgyblion trwy ganmol eu cyfraniadau a'u syniadau. Yn yr achosion gorau, maent yn rhoi adborth ystyrlon ar lafar i gefnogi dysgu disgyblion wrth iddynt weithio, er enghraifft trwy gywiro unrhyw gamsyniadau. Mae gan athrawon ddull cyson o roi adborth ysgrifenedig priodol sy'n helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda, ond nid yw hyn bob amser yn helpu disgyblion i wella'u gwaith. At ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae dealltwriaeth disgyblion o sut i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

Mae athrawon yn cynllunio ystod briodol o brofiadau sy'n seiliedig ar destunau y mae disgyblion yn eu mwynhau, fel 'Teganau' a'r 'Gofod' yn y cyfnod sylfaen, a 'Ffuglen Wyddonol' ac 'Yr Arctig' yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn ymgynghori â disgyblion am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn y testunau hyn, gan ddechrau eu cynnwys yn briodol yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw profiadau dysgu mewn gwersi bob amser yn symbylu a herio'r holl ddisgyblion yn ddigon da i ennyn eu diddordeb yn llawn. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion trwy ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb. Er enghraifft, mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 2 ymweliad diweddar ag un o dai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol lle casglon nhw ddeunyddiau i greu cartrefi i ddraenogod. Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau disgyblion trwy dasgau rheolaidd â ffocws. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd priodol i ddysgu'n weithredol, fel dysgu am hanner a chwarter troeon gan ddefnyddio tegan rhaglenadwy. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu ystod lawn medrau disgyblion yn effeithiol trwy'r ddarpariaeth ddysgu fanylach a pharhaus dan do a'r tu allan.

Mae gan yr ysgol systemau cryf ar waith i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn systematig. Mae cynllunio'n rhoi ystyriaeth dda i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ac yn darparu ystod addas o brofiadau i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn troi mesuriadau imperial yn fesuriadau metrig tra'n astudio dogni adeg y rhyfel. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau disgyblion i ddewis y cyd-destun ar gyfer datblygu agweddau ar eu gwaith. Er enghraifft, mae bechgyn yn arbennig yn mwynhau tasgau ysgrifennu fel paratoi adroddiadau papur newydd am estroniaid yn glanio ar gae pêl-droed Lerpwl. Mae'r ysgol yn paratoi'n dda i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith trwy weithio mewn partneriaeth â'r ysgol uwchradd leol, sy'n ysgol arloesi. Maent wedi datblygu ystod fanwl o weithgareddau sy'n cael eu hymgorffori'n effeithiol yn eu cwricwlwm. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn arbennig o dda, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Mae ymrwymiad cryf i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd trwy gydol y diwrnod ysgol, er enghraifft i gyfarch disgyblion a rhoi cyfarwyddiadau. Maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu geirfa ac ymarfer eu medrau ysgrifennu Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Rhoddir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant Cymru trwy eu testunau, er nad ydynt bob amser yn deall manteision dysgu Cymraeg a dod yn ddwyieithog.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae gan yr ysgol ddull trylwyr o olrhain a monitro cynnydd, presenoldeb a lles disgyblion. Mae athrawon yn casglu gwybodaeth asesu'n rheolaidd ac mae arweinwyr yn dadansoddi'r wybodaeth yn drylwyr i fonitro cynnydd pob disgybl. Mae hyn yn golygu y gall athrawon nodi anghenion unigol disgyblion yn effeithiol a darparu cymorth ychwanegol i wella medrau sylfaenol disgyblion neu helpu disgyblion mwy abl i wneud cynnydd pellach. Mae gan yr ysgol ystod o grwpiau ymyrraeth defnyddiol sy'n darparu cymorth ystyrlon, gan gynnwys addysgu â ffocws mewn grwpiau bach sydd o fudd i fedrau llythrennedd sylfaenol disgyblion.

Caiff darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chydlynu'n effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau allanol, gan gynnwys y gwasanaethau lleferydd ac iaith a chynhwysiant cymdeithasol, i gefnogi anghenion heriol disgyblion unigol yn arbennig o dda. Mae'r ysgol yn mynd ati i gymryd rhan mewn gwaith clwstwr dan arweiniad yr ysgol uwchradd gyfagos i elwa ar hyfforddiant perthnasol a gweithio tuag at roi diwygiadau ar waith ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r ysgol wedi cyflwyno proffiliau gwerth chweil un dudalen ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae arweinwyr yn rhannu'r rhain yn effeithiol gyda phob un o staff yr ysgol, gan gynnwys staff y ffreutur, gan eu gwneud yn ymwybodol o anghenion emosiynol, ymddygiadol a dysgu disgyblion unigol. Mae hyn yn eu helpu i ymateb yn briodol ac yn sensitif i ddisgyblion. Mae'r dull yn cyfrannu'n dda at ffocws cynhwysol a phwrpasol yr ysgol ar gefnogi lles disgyblion unigol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio'n agos gydag athro cynhwysiant cwricwlwm yr awdurdod lleol i fonitro ac asesu cynnydd yn effeithiol. Mae systemau cryf ar waith ar gyfer paratoi ac adolygu cynlluniau unigol i fodloni anghenion penodol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni trwy ei gwefan ddeniadol, y mae disgyblion Blwyddyn 6 yn helpu i'w chynnal. Mae athrawon ac arweinwyr yn annog rhieni i rannu unrhyw bryderon yn gynnar trwy eu polisi 'drws agored'. Er enghraifft, mae'r pennaeth yn cynnig sesiwn reolaidd 'galw i mewn am baned', sy'n cynnig cyswllt rheolaidd. Ceir llawer o gyfleoedd i rieni fod yn rhan o fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni a gofalwyr i rannu cinio ysgol â'u plant i ddathlu achlysuron arbennig fel Diwrnod y Mamau a Diwrnod y Tadau. Mae hyn yn gwneud iddynt deimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol ac mae'n helpu i greu ymdeimlad o gymuned. Ceir polisi cod ymddygiad defnyddiol i rieni ar y wefan, ac mae'r ysgol wedi adolygu ei gweithdrefn gwyno yn ddiweddar i ddarparu canllawiau clir i rieni eu dilyn, os bydd angen.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am fwyta'n iach a chadw'n weithgar. Er enghraifft, gyda chymorth gan lywodraethwr, mae disgyblion

yn rhedeg siop ffrwythau. Mae athrawon yn annog disgyblion i wneud ymarfer corff yn ystod amser egwyl ac amser cinio, a chyn yr ysgol yn ogystal. Ceir mentrau arbennig i gefnogi hyn, fel cyfleoedd i ddod â'u beiciau a'u sgwteri i'r ysgol ar "Mechanical Monday" a "Wheelie Wednesday".

Mae'r ysgol wedi nodi bod angen gwella ymddygiad disgyblion ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â hyn. Er enghraifft, mae'n annog disgyblion i ystyried yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir, a sut i ryngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd trwy addysgu ffocysedig mewn grwpiau medrau cymdeithasol a'i dull newydd o gyd-addoli. Trwy weithgareddau fel wythnos gwrthfwlio, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu sut i aros yn ddiogel a pharchu ei gilydd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant i bob un o'r staff i'w cynorthwyo ymhellach â bodloni anghenion disgyblion mwy heriol. Fodd bynnag, mae'r mentrau hyn yn gymharol newydd ac nid ydynt wedi gwella ymddygiad disgyblion yn nodedig eto.

Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd a gwerth chweil i ddysgu am anghenion a hawliau pobl eraill trwy astudio testunau fel 'dŵr' a dysgu am wahanol wledydd a diwylliannau yn eu gwersi. Mae cyngor masnach deg yr ysgol yn trefnu digwyddiadau ysgol gyfan ac yn codi arian i brynu offer dysgu sylfaenol ar gyfer plant ym Malawi. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall sut gallant gyfrannu'n ystyrlon at y gymuned fyd-eang.

Mae ffocws cryf ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rhai cyfrifoldebau cyffredinol yn yr ysgol, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch. Fodd bynnag, mae trefniadau'r ysgol i annog disgyblion i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn ystyrlon ar lefel ysgol yn llai datblygedig.

Mae'r ysgol yn delio'n effeithlon â llawer o agweddau ar amddiffyn a diogelu plant. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion yn llawn ac maent yn destun pryder. Tynnwyd sylw'r corff llywodraethol at hyn yn ystod yr arolygiad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r pennaeth yn darparu synnwyr clir o gyfeiriad ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws cryf ar godi safonau a gwella darpariaeth. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda staff, yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgu disgyblion ac yn hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol yn llwyddiannus. Mae staff ar bob lefel yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm agos, ymroddgar a chefnogol. Mae staff â rolau arwain yn gweithio ar lawer o flaenoriaethau'r ysgol yn bwrpasol, fel gweithio tuag at ddatblygu dull effeithiol o reoli ymddygiad a symud ymlaen â dysgu digidol yn yr ysgol. Fodd bynnag, ni chaiff pob agwedd ar eu rolau a'u cyfrifoldebau arwain eu diffinio'n ddigon clir i arweinwyr ddeall yn llawn beth a ddisgwylir ohonynt. Mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd ag agweddau pwysig ar waith yr ysgol, fel sefydlu darpariaeth o ansawdd da yn y cyfnod sylfaen.

Mae gwaith partneriaeth sefydledig wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol, yn enwedig o ran cynorthwyo plant sy'n dechrau yn yr ysgol o'r cylch chwarae lleol ac yn sicrhau bod disgyblion yn symud yn hyderus i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae cydweithio'n agos ag ysgolion eraill wedi bod yn hynod effeithiol o ran datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh. Mae arweinwyr yn barod i ofyn am gyngor gan swyddogion ymgynghorol ac yn gweithredu'n brydlon yn

unol â'u hargymhellion, er enghraifft trwy fireinio agweddau ar eu gweithdrefnau asesu. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Er enghraifft, mae'n sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau statudol ac yn cynorthwyo'r ysgol yn dda â materion pwysig, fel datblygu polisïau a gweithdrefnau effeithiol i ddelio â materion, gan gynnwys cwynion. Maent yn datblygu dealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac yn cyfrannu'n briodol at fonitro cynnydd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr yn gweithredu'n bwrpasol i sicrhau gwelliannau ac mae hyn wedi arwain yn arbennig at godi safonau mewn Cymraeg a datblygu agweddau penodol ar y ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion. Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda. Wrth adolygu agweddau ar waith yr ysgol, mae arweinwyr yn gofyn am farn staff addysgu, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno ac arfarnol. Mae'r ysgol yn dadansoddi gwybodaeth asesu yn ofalus. Mae arweinwyr yn coladu swm sylweddol o dystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi a monitro gwaith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwbl effeithiol o ran llywio'r broses hunanarfarnu. O ganlyniad, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn adlewyrchu'r holl feysydd y mae angen i'r ysgol eu datblygu yn gywir. Er enghraifft, nid yw'n amlygu'r diffygion yn narpariaeth y cyfnod sylfaen yn ddigon clir.

Mae cynllun gwella'r ysgol wedi'i seilio ar nifer addas o brif flaenoriaethau. Mae'r rhan fwyaf o feysydd i'w gwella yn gysylltiedig â deilliannau hunanarfarnu. Mae'r cynllun gwella yn cynnwys manylion addas, ac mae'n cynnwys graddfeydd amser, costau ac adnoddau clir. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn nodi'r camau gweithredu mwyaf priodol i'w helpu i symud ymlaen. Nid yw meini prawf llwyddiant yn y cynllun wedi'u cysylltu'n ddigon da â safonau disgyblion, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i fonitro cynnydd yn drylwyr.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddatblygiad proffesiynol staff ac mae pob un o'r staff yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyfleoedd hyfforddi. Mae hyn yn arbennig o effeithiol o ran datblygu ymagwedd yr ysgol at ddysgu digidol a'i chymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau sefydledig ag ysgolion eraill a cholegau sy'n darparu cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer datblygiad proffesiynol, fel cydweithio'n agos â'r brifysgol leol i gefnogi mynediad at y rhaglen hyfforddi i raddedigion ar gyfer cynorthwywyr addysgu. Mae targedau rheoli perfformiad athrawon yn cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol yn llwyddiannus, ond nid ydynt yn darparu cymorth digonol ar gyfer datblygiad personol athrawon.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn drylwyr. Maent yn dyrannu adnoddau yn unol â blaenoriaethau gwella yn effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio'i grantiau penodol yn effeithlon i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn briodol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o brofiad ac arbenigedd staff addysgu a staff cymorth. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y ddarpariaeth gref ar gyfer addysgu Cymraeg a'r cymorth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion unigol. Y tu mewn i'r adeilad, mae arddangosfeydd o ansawdd da yn dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn darparu ffocws gwerthfawr ar gyfer addysgu a dysgu. Yn gyffredinol, mae ystod eang yr adnoddau o ansawdd da yn cefnogi

cyflwyno'r cwricwlwm yn dda, yn enwedig ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion. Fodd bynnag, nid yw adnoddau yn ystafelloedd dosbarth y cyfnod sylfaen wedi'u trefnu'n ddigon da i gefnogi dysgu annibynnol disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r ardaloedd helaeth yn yr awyr agored, gan gynnwys ardal goedwig, adran chwarae antur ac ardal bywyd gwyllt yn briodol i gefnogi datblygiad corfforol disgyblion a darparu cyd-destunau diddorol ar gyfer eu dysgu. Mae gan holl ddosbarthiadau'r cyfnod sylfaen fynediad at ardal awyr agored, ond ni chaiff y rhain eu cynllunio'n ddigon da i gefnogi dysgu annibynnol neu ddatblygiad medrau disgyblion yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2018